# Cyrchfan Conwy

# Cyfarfod Is-grŵp Canolfannau Croeso/Rhaglen Llysgennad

# Dydd Mercher 12 Ionawr 2022

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Hollie Harmsworth | Follow Films |
| Tansy Rogerson | Armadillo Events |
| Cai Ross | Bwyty Paysanne |
| Caroline Somary | Sweet Snowdonia |
| Nigel Treacy | Canolfan Chwaraeon Eira Llandudno |
| Jon Merrick (JM) | Rheolwr Busnes a Thwristiaeth, CBSC |
| Gwen Roberts, | Uwch Swyddog Marchnata (Twristiaeth) |
| Kim Nicholls (KN) | Cymryd cofnodion, CBSC |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Louise Carswell | Adran Teithio a Thwristiaeth Coleg Llandrillo |
| Graham Paul Jones | Grŵp Llandrillo Cymru |
| Tamzyn Lawrence | t-l-c, Betws-y-Coed |

**1. Croeso a Chyflwyniadau**

Croesawodd JM bawb i gyfarfod cyntaf Is-grŵp Canolfannau Croeso / Rhaglen Llysgennad

**2. Trosolwg o Gyrchfan Conwy**

Dechreuodd Cyrchfan Conwy tua 2010. Roedd yn fenter ar draws Gogledd Cymru i sefydlu fforymau ar gyfer busnesau twristiaeth. Conwy oedd un o'r siroedd cyntaf i ddechrau cyfarfod.

Mae pedwar sbardun allweddol yn y Cylch Gorchwyl presennol:

1. Darparu cyfraniad lleol i weithrediad llwyddiannus Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy
2. Cefnogi, monitro ac adolygu Cynllun Rheoli a Chynllun Gweithredu Cyrchfan Conwy
3. Rhoi arweiniad a dylanwadu ar gynllunio twristiaeth leol, ranbarthol a chenedlaethol
4. Darparu'r porth ar gyfer cyfathrebu agored rhwng y fasnach a chyrff cyhoeddus

Mae grŵp Cyrchfan Conwy wedi datblygu'n dda dros y blynyddoedd ac mae wedi cael dylanwad ar Gonwy.

Trwy greu grŵp Cyrchfan Conwy, mae CBSC wedi ceisio rhoi penderfyniadau yn nwylo busnesau twristiaeth. Er enghraifft, cafodd y Cynllun Rheoli Cyrchfan ei ysgrifennu gan Gyrchfan Conwy a'i gymeradwyo gan CBSC.

Mae Cyrchfan Conwy wedi'i ailstrwythuro ar gyfer 2022.

Nigel Treacy yw Cadeirydd prif Grŵp Cyrchfan Conwy.  Nid oes Is-gadeirydd wedi'i benodi eto, ond bydd angen dewis un o blith Cadeiryddion y pum is-grŵp.

Mae'r pum grŵp fel a ganlyn:

1. Sgiliau
2. Rheoli Cyrchfan
3. Marchnata
4. Strategaeth/Cynllun Gweithredu
5. Gwybodaeth i Dwristiaid / Cynllun Llysgennad Conwy

Mae tua 16 aelod ym mhob grŵp.

Mae Bwrdd Cyrchfan Conwy hefyd sy'n cynnwys: Cadeirydd, Is-gadeirydd, pum Cadeirydd yr is-grwpiau, cynrychiolydd Croeso Cymru (Andrew Forfar), Aelod Cabinet Datblygu Economaidd a Hamdden CBSC (Cyng Louise Emery) a Rheolwr Twristiaeth CBSC (Jon Merrick)

Bydd Cadeirydd Cyrchfan Conwy hefyd yn rhan o Fforwm Twristiaeth Gogledd Cymru, a gaiff ei gynnal gan Croeso Cymru.

**3. Ethol Cadeirydd ar gyfer Is-grŵp Canolfannau Croeso/Rhaglen Llysgennad**

Cafodd Cai Ross ei ethol fel Cadeirydd yr Is-grŵp Canolfannau Croeso/Rhaglen Llysgennad.

**4. Cylch Gorchwyl**

GWEITHREDU - Bydd JM yn rhannu prif Gylch Gorchwyl Cyrchfan Conwy gyda'r grŵp hwn.

Bydd angen i'r Is-grŵp Canolfannau Croeso/Rhaglen Llysgennad ddatblygu eu Cylch Gorchwyl eu hunain.

GWEITHREDU - JM a CR i ddatblygu Cylch Gorchwyl yn seiliedig ar feysydd allweddol a dosbarthu drafft i'r grŵp.

**5. Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol - meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt**

**Sylwadau JM oedd:**

- Cwmpas y grŵp hwn yw cynorthwyo CBSC i ddarparu'r gwasanaeth gwybodaeth i dwristiaid.  Mae angen ffyrdd arloesol o wella'r gwasanaeth.
- Uchelgais y grŵp yw hyrwyddo a darparu'r Rhaglen Llysgennad yn barhaus.

**Gwasanaeth Gwybodaeth i Dwristiaid - cefndir**

- Ar hyn o bryd mae dwy Ganolfan Groeso a gaiff eu rhedeg gan CBSC - Llandudno a Chonwy

- Nifer yr ymwelwyr yw - Llandudno - 110,000, Conwy - 90,000
- Mae Llandudno'n gwneud yn eithaf da yn fasnachol, tra bod Conwy'n fwy tymhorol
- Mae Canolfan Groeso Llandudno wedi symud o'r llyfrgell i uned fanwerthu yng Nghanolfan Fictoria. Mae hyn wedi rhoi mwy o weledEdd iddi a ffenestr siop dda
- Mae Canolfan Groeso Conwy yn adeilad Muriau ar Rosehill Street. Mae hwn yn adeilad rhestredig, nid oes blaen siop ac nid oes modd gweld i mewn i'r Ganolfan. Felly mae'n tueddu i ddenu twristiaid yn unig, yn hytrach na siopwyr.
- Mae'r ddwy Ganolfan yn cael negeseuon e-bost a galwadau ffôn hefyd
- Dros y blynyddoedd diwethaf, mae CBSC wedi ceisio tyfu a datblygu siopau'r Canolfannau Croeso. Mae'r ddwy yn unedau manwerthu deniadol iawn bellach
- Mae angen sicrhau bod gwasanaeth y Canolfannau Croeso yn gynaliadwy. Mae'n agored i brosesau lleihau costau CBSC
- Mae'r Canolfannau Croeso yn cyfeirio ymwelwyr at fwytai, atyniadau i ymwelwyr a llety, felly mae'n wasanaeth pwysig.
- Mae'r Canolfannau Croeso yn gyfle da i hyrwyddo busnesau bach lleol hefyd.
- Lansiwyd siop ar-lein yn 2021
- Mae 5 aelod o staff Canolfannau Croeso i gyd, 2 yn Llandudno trwy gydol y flwyddyn a 2 yn yr haf ac 1 yn y gaeaf yng Nghonwy. Mae staff achlysurol ar gael i alw arnynt hefyd.

**Rhaglen Llysgennad**

- Cwrs Llysgennad Twristiaeth Conwy - Llysgennad Cymru
- Lansiwyd ar-lein yn 2021 ?? ar ôl 18 mis o ddatblygu
- Mae'n cynnwys tri cham - efydd, arian ac aur. Mae pob cam yn cynnwys modiwlau tua 30-35 munud o hyd
- Mae gennym 350 llysgennad efydd, 266 llysgennad arian, a 178 llysgennad aur ar hyn o bryd
- Mae'r rhaglen wedi cael grant yn ddiweddar i ddatblygu pedwar modiwl arall. Dylai'r grŵp hwn gael mewnbwn i'w datblygu.
- Mae angen hyrwyddo'r rhaglen mor eang ag sy'n bosibl
- Caiff y Rhaglen Llysgennad ei hyrwyddo ar wefan Croeso Conwy hefyd

**Sylwadau gan y grŵp**

**Canolfannau Croeso**

- mae angen chwilio am ddatrysiadau ar gyfer cynaliadwyedd Canolfannau Croeso
- a oes unrhyw arfer gorau gan Ganolfannau Croeso eraill?
- Nododd JM y bu dirywiad o ran Canolfannau Croeso oherwydd toriadau i gyllidebau awdurdodau lleol.
- Mae angen edrych ar ffyrdd o hyrwyddo'r siop ar-lein.
- Llandudno yw un o'r Canolfannau Croeso mwyaf llwyddiannus yn fasnachol. Mae Twristiaeth GC yn rheoli Canolfan Groeso Llangollen. Mae'n oriel gelf ac mae'n gwerthu gwaith celf hefyd. Mae gan Fetws-y-Coed rhywfaint o fanwerthu. Mae'r Parc

Cenedlaethol yn bwriadu buddsoddi yng Nghanolfan Groeso ByC gan ddefnyddio Llandudno fel model. Dywedodd JM fod Wrecsam yn cynllunio Canolfan Groeso yng nghanol y dref

**Canolfan Groeso Conwy**

- un o'r problemau gyda Chanolfan Groeso Conwy yw'r diffyg arwyddion. Mae'n hawdd ei methu, ac mae twristiaid yn cymryd mai Canolfan Ymwelwyr Conwy, sydd ymhellach i lawr yr un ffordd, yw'r Ganolfan Groeso.
- Y brif her gyda Chanolfan Groeso Conwy yw'r adeilad ffisegol, oherwydd mae'n adeilad rhestredig ac mae cyfyngiad ar wneud newidiadau iddo. Fel rhan o waith ailwampio Canolfan Groeso Conwy, cafodd y wal flaen ei dymchwel a gosodwyd ramp. Mae man digwyddiadau wrth ochr yr adeilad hefyd. Cafodd ei ddatblygu gyda'r bwriad o helpu'r cynnig gyda'r nos
- Mae'r heddlu'n cymryd llawr uchaf adeilad Canolfan Groeso Conwy ac ystafell yn y cefn. Mae'n ofod swyddfa, nid gorsaf heddlu. Mae toiledau cyhoeddus yn yr adeilad hefyd.

**Rhaglen Llysgennad**

- mae angen nodi bylchau a sut i dargedu ac ymgysylltu
- Caiff y Rhaglen Llysgennad ei hyrwyddo ar wefan Croeso Conwy
- Mae byrddau gwybodaeth wrth fynedfeydd i drefi yn bodoli eisoes ond mae angen eu diweddaru. Gellid hyrwyddo'r rhaglen Llysgennad ar y byrddau hyn
- a oes modd cael syniad o ba ymgyrchoedd hyrwyddo sydd wedi'u cynnal eisoes?
- mae mwy o bethau y gallwn eu gwneud gyda'r cyfryngau cymdeithasol, cyfathrebu trwy newyddlenni ac ati.
- mae gennym gronfa ddata o 5,000 o fusnesau y byddwn ni'n anfon negeseuon atynt, gan gynnwys 800 o fusnesau twristiaeth. Mae 1.2 miliwn o ymwelwyr â'r wefan dwristiaeth bob blwyddyn. Mae 40,000 o bobl yn dilyn y dudalen Facebook. Mae gan y gronfa ddata ymwelwyr twristiaeth 50-60,000 o gysylltiadau
- Ar hyn o bryd, nid oes tudalen Facebook ar gyfer y rhaglen Llysgennad.
- Caiff gwefan Croeso Conwy a'r dudalen Facebook eu rheoli gan CBSC ac mae negeseuon rheolaidd yn ymddangos yno a cheir ymgysylltu da. Mae Instagram yn gwella hefyd. Mae 9,000 o ddilynwyr ar Twitter. Mae angen nodi a oes unrhyw beth sy'n golygu nad yw pobl yn ymgysylltu
- mae strwythur, golwg a theimlad y wefan Llysgennad yn gyfyngedig oherwydd ei bod yn rhan o gynllun Gogledd Cymru
- Dywedodd JM ei bod yn anoddach cwblhau'r modiwlau ar ffôn symudol nag ar liniadur. Mae adborth wedi dangos bod hyn yn anneniadol
- Mae'r modiwlau'n para 30-35 munud yr un ac mae angen neilltuo amser yn hytrach na mynd i mewn ac allan yn achlysurol. Fodd bynnag, gallwch wneud y rhaglen ar eich cyflymder eich hun.
- Gofynnir am adborth wrth anfon y tystysgrifau cwblhau. Hyd yma, mae wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan
- roedd baneri dros dro yng Ngholeg Llandrillo ac is-grŵp i fudd-ddeiliaid. Roedd Graham Jones yn rhan o'r datblygiad wrth symud ymlaen yn y coleg. Roedden nhw'n gobeithio

cael dysgu wyneb i wyneb ond roedd hyn wedi'i effeithio gan Covid. Maen nhw hefyd wedi ceisio hyrwyddo trwy gysylltiadau Conwy, e.e. LlT ByC.
- mae angen rhagor o wybodaeth arnom ac amlygu'r amser mae pob modiwl yn ei gymryd.
- byddai nawr yn amser da i hyrwyddo oherwydd bod busnesau yn dawelach nawr
- mae gennym weminarau cyffrous ym mis Chwefror/Mawrth i atgoffa pobl am gyrchfannau nad ydynt ar lwybrau arferol. Mae angen hyrwyddo'r rhain hefyd
- dylem gael ail-lansiad oherwydd mae modiwlau ychwanegol ar gael bellach

**Cytunwyd ar y canlynol hefyd.**

- **Hyblygrwydd** - dylai'r grŵp fod yn hyblyg er mwyn gwahodd ymwelwyr i'r cyfarfodydd os yw hynny'n berthnasol i'r agenda
- **Cyfeiriadau e-bost** - roedd yr aelodau'n hapus i rannu eu cyfeiriadau e-bost
- **Iaith** – cytunwyd y byddai'r cofnodion yn dderbyniol yn Saesneg yn unig, oni bai eu bod yn cael eu rhannu â'r cyhoedd
- **Cyfrinachedd** – mae'r cyfarfodydd yn gyfrinachol fel bod modd i aelodau rannu eu barn yn ddiogel
- **Hyrwyddo gwaith Cyrchfan Conwy** i gynulleidfa ehangach trwy gronfa ddata busnes CBSC, gwefan a chyfryngau cymdeithasol.
- **Amlder cyfarfodydd** - i'w gytuno
- **Cynrychiolwyr CBSC** – byddant ar gael bob amser i gydlynu, hwyluso a chymryd cofnodion mewn cyfarfodydd. Bydd Amy (Rheolwr Canolfannau Croeso) yn mynychu cyfarfodydd y dyfodol. Mae hi ar gyfnod o absenoldeb mamolaeth ar hyn o bryd.
- **Aelodau nad ydynt yn gallu mynychu** – gallant gyfrannu trwy e-bost neu trwy gyfarfod â'r Cadeirydd yn unigol o bosibl.

KN
13.01.22.